

FRANCIS, ENOCH (1688-9 - 1740), gweinidog gyda'r Bedyddwyr

Enw: Enoch Francis
Dyddiad geni: 1688-9
Dyddiad marw: 1740
Priod: Mary Francis (née Evans)
Plentyn: Jonathan Francis
Plentyn: Benjamin Francis
Rhiant: Francis David Francis
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Bedyddwyr
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd ym Mhant-y-llaethdy ar lan Teifi, rhwng Llanllwni a Llanybydder, yn fab i Francis David Francis, o deulu â'i wreiddiau crefyddol yn Rhydwylym; gweler y daflen gan [T. Shankland](#) yn *Trafodion Cymdeithas Hanes Bedyddwyr Cymru*, 1911-2, a ddengys i 11 o leiaf ohonynt ddyfod yn weinidogion. Magwyd Enoch Francis yn ' eglwys Glannau Teifi,' naill ai yn ei chanolfan cyntaf, Gland r (Llandysul) neu yn y Dre-fach, neu'n debycach efallai yn Rhosgoch (Llanarth). Yn Llanllwni, tua 1707, y dechreuodd bregethu; ni wyddys pa bryd yr urddwyd ef yn gynorthwywr i James James (bu farw 1734), gweinidog yr eglwys, ond yn amlwg bu hynny cyn 1721, oblegid yn 1721 cyhoeddwyd ef i bregethu pregeth y Gymanfa yn Hengoed yn 1722. Yr oedd wedi priodi tua 1718 (Mary Evans, o'r Hengoed, oedd ei wraig), ac yn byw yng Nghapel Iago, Llanybydder. Argraffwyd ei bregeth gymanfa (Llangloffan), 1729; ailargraffwyd hi yn *Trafodion Cymdeithas Hanes Bedyddwyr Cymru*, 1911-2. Yn y ddadl Arminiaidd, 1729, pan aeth ei gyfyrder [Abel Francis](#) drosodd at Arminiaeth, glynodd Enoch Francis wrth y Calfiniaid, ac yn 1733 cyhoeddodd *Gair yn ei Bryd* i amddffyn Calfiniaeth. Erbyn hynny, yr oedd wedi symud i Ben-y-gelli ar gwr Castellnewydd Emlyn, ac yn 1734 efe oedd prif weinidog eglwys Glannau Teifi, a phedwar neu bump o gynorthwywr iddo, gan fod i'r eglwys nifer mawr o ganghennau a dyfodd wedyn yn eglwysi ar wahân, megis Aberduar, Pant Teg, etc. Cenhadai Enoch Francis yn ddyfal yn y cylch mawr hwn (a'r tu allan iddo hefyd), ac esgynnodd i fri dirfawr fel pregethwr - gellid meddwl oddi wrth eiriau [Joshua Thomas](#) ac eraill mai 'mawrhydi' a sobrwydd, yn hytrach na theimladrwydd 'diwygiadol,' a nodweddi ei bregethu. Yn Awst 1739 bu farw ei wraig; bu yntau farw (oddi cartref, yn Abergwaun) 4 Chwefror 1739-40, yn 51 oed; claddwyd y ddau yng Nghilfowyr. Cafodd chwech o blant; merch iddo oedd gwraig [Stephen Davies](#), a meibion iddo oedd [Jonathan Francis](#) o Ben-y-fai a [Benjamin Francis](#) o Horsley. Fel y soniwyd, yr oedd [Abel Francis](#) yn gâr iddo.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Joshua Thomas, *Hanes y Bedyddwyr ymhlith y Cymry: o amser yr Apostolion, hyd y flwyddyn hon: yn ddwy ran* (1778) (yn bennaf 374-84) a *A History of the Baptist Association in Wales* (1795)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q5379295](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.